FFRAMWAITH **YMARFER GORUCHWYLIOL DA**

Yr Athro Stan **Taylor**

Mehefin 2019

UK Council for
Graduate Education

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Mae'**r Fframwaith Ymarfer Goruchwyliol Da** yn cydnabod, am y tro cyntaf ar **lefel genedlaethol**, y set **eang**, **hynod gymhleth** a **heriol o rolau** a gyflawnir gan oruchwylwyr ymchwil modern.

Mae goruchwylio ymchwil yn weithgarwch cynyddol gymhleth, lle mae goruchwylwyr yn gorfod ymateb i dwf, amrywiaeth a lles yr ymgeiswyr Ôl-Radd Ymchwil. Fodd bynnag, mae cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewn llawer o brifysgolion yn y DU yn gyfyngedig, weithiau i ddim ond hanner diwrnod (gweler Taylor 2018). Gall hyn olygu bod llawer o oruchwylwyr yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn cael eu llethu gan faint eu tasg ac yn lleihau cwmpas y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygiad academaidd.

Cynlluniwyd y fframwaith i osod disgwyliadau ar gyfer pob goruchwyliwr ac i gefnogi rhaglenni datblygu goruchwylwyr. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar yr ymchwil academaidd i addysg ddoethurol ac fe'i dilyswyd yn ystod astudiaeth beilot sy'n cynnwys goruchwylwyr ymchwil ledled y DU.

Sut i Ddefnyddio'r Fframwaith hwn

Bydd goruchwylwyr o bob disgyblaeth academaidd a lefelau profiad yn gweld gwerth yn y fframwaith. I rai, bydd yn eu sicrhau bod eu hymarfer eisoes yn cynnwys gweithgareddau goruchwylwyr effeithiol, i eraill bydd yn gosod safon ymarfer i weithio tuag ati ar hyd eu gyrfa.

I sefydliadau, sydd yn aml â thimau datblygu bach o oruchwylwyr ymchwil yn unig, gellir defnyddio'r fframwaith i ddilysu, ategu a chefnogi eu rhaglenni datblygu mewnol.

Y Meini Prawf ar gyfer Ymarfer Goruchwyliol Da

Mae llawer o ddiffiniadau o 'ymarfer goruchwyliol' yn y llenyddiaeth (gweler, er enghraifft, Eley and Murray 2009, Wisker 2012, Grant et al 2014, Kearns a Finn 2017, Taylor et al 2018) ond mae pob un yn cynnwys nifer neu bob un o'r meini prawf yn y Fframwaith Ymarfer Goruchwyliol Da:

MEINI PRAWF AR GYFER YMARFER GORUCHWYLIOL DA

- Recriwtio a dethol.
- Perthynas oruchwyliol gydag ymgeiswyr.
- Perthynas oruchwyliol â chyd-oruchwylwyr.
- Cefnogi prosiectau ymchwil yr ymgeiswyr.
- Annog ymgeiswyr i ysgrifennu a rhoi adborth priodol.
- Cadw'r ymchwil ar y trywydd cywir a monitro cynnydd.
- Cefnogi datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol yr ymgeiswyr.
- Cefnogi ymgeiswyr i gwblhau eu hymchwil hyd at eu harholiad terfynol.
- Cefnogi ymgeiswyr i rannu eu hymchwil.
- Myfyrio ar ymarfer, a'i wella.

Yn dilyn Brown ac Atkins (1988:115), gall ymarfer 'da' gael ei ddiffinio fel y **set o nodweddion sylfaenol** sy'n gwneud '... [goruchwyliaeth] effeithiol.' Ar y sail hon gellir diffinio 'ymarfer da' fel **y nodweddion sy'n galluogi goruchwylwyr i fod yn effeithiol** ym mhob un o'r meysydd hyn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi **trosolwg o bob nodwedd** sy'n diffinio ymarfer goruchwyliol da, ynghyd ag **enghreifftiau nodweddiadol o weithgareddau** y gellid eu canfod yn yr arfer hwnnw.

Recriwtio a Dethol

Gall goruchwylwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau recriwtio mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r meysydd y gallant gynnig goruchwyliaeth ynddynt a chyrraedd grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Dylai goruchwylwyr fod yn rhan o'r broses o ddethol ymgeiswyr, o gefnogi ymgeiswyr arfaethedig i ddatblygu eu ceisiadau hyd at wneud penderfyniadau terfynol a rhoi adborth.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r meysydd ymchwil y gallan nhw'n bersonol gynnig goruchwyliaeth ynddynt.
- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd i recriwtio ymgeiswyr o grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg ddoethurol.
- Asesu a yw ymgeiswyr yn debygol o wneud y newid i fod yn ymchwilwyr annibynnol.
- Asesu a yw prosiectau ymchwil arfaethedig ymgeiswyr yn ddichonadwy ac a oes ganddynt (neu a allant gaffael) y wybodaeth a'r sgiliau i'w cwblhau.
- Cyfweld ymgeiswyr.
- Gwneud penderfyniad terfynol a rhoi adborth.

Perthnasoedd Goruchwyliol gydag Ymgeiswyr

Dros y tri degawd diwethaf, mae natur y boblogaeth ymgeiswyr wedi dod yn fwy amrywiol, ac mae angen i oruchwylwyr fod yn ymwybodol o hyn wrth ffurfio perthynas effeithiol ag ymgeiswyr.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i oruchwylwyr ac ymgeiswyr doethurol gael disgwyliadau clir o'i gilydd o'r cychwyn, a'r dasg gyntaf yw trafod y rhain a, lle bo'n briodol, cyd-drafod sut y cânt eu bodloni.

Hefyd, mae angen i ymgeiswyr a goruchwylwyr allu gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Gan fod pob grŵp o unigolion, yn naturiol, yn unigryw, bydd pob perthynas yn wahanol, yn dibynnu ar arddull(iau) y goruchwyliwr(wyr) a nodweddion yr ymgeisydd, y mae angen eu halinio ar y cychwyn i fod yn llwyddiannus.

Wedi dweud hynny, gall y berthynas newid, ac yn wir dylai newid dros amser. Wrth i ymgeiswyr fwrw ymlaen â'u hastudiaethau doethurol, dylai eu hanghenion newid, ac ar sail hynny, natur y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt gan eu goruchwylwyr.

Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, gallai materion difrifol arwain at chwalu'r berthynas, neu'r posibilrwydd o hynny. Mae angen i oruchwylwyr fod yn barod ac yn ymwybodol o'r ffynonellau cymorth i ymgeiswyr ac iddyn nhw eu hunain.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Cydnabod amrywiaeth cynyddol y boblogaeth ymgeiswyr yn y wlad hon a chydnabod ei goblygiadau o ran goruchwylio.
- Cydnabod y cynnydd yn amrywiaeth y boblogaeth ymgeiswyr rhyngwladol a chydnabod ei goblygiadau ar gyfer goruchwylio.
- Trafod a chytuno ar ddisgwyliadau gydag ymgeiswyr ar ddechrau eu hastudiaethau.
- Bod yn ymwybodol o arddulliau goruchwylio a'u perthynas ag anghenion myfyrwyr a gallu eu halinio ar ddechrau astudiaethau doethurol.
- Bod yn ymwybodol o sut mae anghenion myfyrwyr yn newid yn ystod astudiaethau doethurol a gallu cynnal a chalibro arddulliau goruchwylio.
- Bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol pe bai perthynas oruchwyliol yn chwalu ac o ffynonellau cymorth i'r ddwy ochr.

Perthnasoedd Goruchwyliol gyda Chyd-oruchwylwyr

Yn hanesyddol, y model oedd un goruchwyliwr ar gyfer pob ymgeisydd. Ond, yn fwy diweddar, bu symudiad tuag at oruchwylio ar y cyd neu dîm goruchwylio er mwyn gwella profiad ymgeiswyr doethurol, dibynnu llai ar un unigolyn a rhoi iddynt fynediad i ystod ehangach o arbenigedd a chefnogaeth.

Fodd bynnag, mae anfanteision posibl yn deillio o gyd-oruchwylio. Gallai cynnwys mwy o oruchwylwyr yn y broses greu'r posibilrwydd o wahaniaethau ac anghytuno o fewn y tîm a golygu bod yr ymgeisydd 'yn y canol' ar draul ei brofiad/phrofiad.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Egluro rolau gyda chyd-oruchwylwyr ac ymgeiswyr wrth ymgeisio.
- Egluro disgwyliadau o'r prosiect gyda chyd-oruchwylwyr a'r ymgeisydd.
- Adolygu'n rheolaidd y berthynas rhwng goruchwylwyr a gydag ymgeiswyr wrth ymgeisio.

Cefnogi Prosiectau Ymchwil Ymgeiswyr

Efallai nad oes gan ymgeiswyr doethuriaeth newydd unrhyw brofiad neu fawr ddim profiad o ymchwil, ac felly ychydig neu ddim syniad o'r hyn sydd o'u blaen. Felly, efallai y bydd angen i oruchwylwyr eu cymell i wneud gwaith ymchwil, gan gynnwys natur yr ymchwil ei hun, y cysyniadau allweddol, yr hyn y mae'n ei olygu, ac ymarfer da wrth ymgymryd ag ef.

Oni bai bod y prosiect ymchwil ei hun wedi'i bennu ymlaen llaw, bydd goruchwylwyr yn chwarae rhan yn y gwaith o gynghori ymgeiswyr ynglŷn â dewis pwnc ac yna eu cynorthwyo i lunio cynnig ymchwil a chael cymeradwyaeth foesegol. Beth bynnag fo'r ddisgyblaeth, bydd angen i oruchwylwyr wneud yn siŵr bod gan ymgeiswyr y wybodaeth sy'n benodol i'r pwnc a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u pynciau ymchwil, neu y gallant eu caffael. Gall y rhain gynnwys y sgiliau arbrofol a thechnegol perthnasol i ymgymryd â'u prosiectau ymchwil, yn achos sgiliau technegol, y gallu i chwilio am wybodaeth, adalw, storio, a rhannu.

Os gellir rhoi cychwyn i'r ymgeiswyr drwy'r dulliau hyn, yn hwyr neu'n hwyrach, mae'n debygol iawn y byddant yn dod ar draws problemau academaidd o ryw fath neu'i gilydd. Os a phryd y bydd hyn yn digwydd, mae'n bwysig bod goruchwylwyr yn gwybod ac yn cynnig cymorth.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Trafod cysyniadau a chamsyniadau ymchwil ei hun gydag ymgeiswyr.
- Edrych ar gysyniadau 'trothwy' allweddol mewn ymchwil.
- Ystyried materion yn ymwneud ag uniondeb academaidd, hawliau eiddo deallusol, a chyd-gyhoeddi.
- Rhoi cyngor ynglŷn â dewis pwnc.
- Rhoi cyngor ynglŷn â chynnig a chynllun ymchwil.
- Cefnogi'r ymgeisydd i ddewis methodoleg.
- Rhoi cyngor ynglŷn â chael cymeradwyaeth foesegol.
- Rhoi cyngor ynglŷn â datblygu sgiliau mewn perthynas â'r prosiect.
- Rhoi cyngor ynglŷn â materion sy'n codi yn ystod yr ymchwil.

Annog Ymgeiswyr i Ysgrifennu a Rhoi Adborth Priodol

Mae angen i ymgeiswyr gynhyrchu gwaith ysgrifenedig drwy gydol eu hastudiaethau i fynegi'r hyn y maent yn ei feddwl, i fyfyrio ar eu canfyddiadau, ac i gael adborth. Ond gall ymgeiswyr fod yn amharod i ysgrifennu yn enwedig yn y dyddiau cynnar. Bydd angen anogaeth a chefnogaeth arnynt gan eu goruchwylwyr i wneud hynny.

Ar ôl iddynt gynhyrchu gwaith ysgrifenedig, rhaid i oruchwylwyr roi adborth. Mae'n bwysig bod yr adborth o ansawdd uchel a'i fod yn galluogi ymgeiswyr i ddatblygu eu prosiectau ymchwil.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Annog ymgeiswyr i ysgrifennu o ddechrau eu hastudiaethau.
- Cefnogi datblygiad ysgrifennu academaidd.
- Rhoi adborth amserol, adeiladol y gellir gweithredu arno.

Cadw'r Ymchwil ar y Trywydd Cywir a Monitro Cynnydd

Mae'r dyddiau pan oedd graddau doethurol yn cymryd cyhyd ag oedd angen, oherwydd eu bod yn cynnwys creu gwybodaeth newydd, wedi hen fynd heibio. Yn fyd-eang, mae noddwyr ymchwil wedi rhoi polisïau ar waith sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod ymgeiswyr yn cwblhau eu graddau mewn tair neu bedair blynedd o astudio'n llawn amser (neu pro rata ar gyfer rhan-amser). Mae polisïau o'r fath fel arfer wedi golygu cosbau ariannol i adrannau a/neu sefydliadau sydd wedi methu â chyrraedd targedau ar gyfer cyfraddau a/neu amseroedd cwblhau.

O ganlyniad, dros y tri degawd diwethaf, un o brif rolau goruchwylwyr, os nad y bwysicaf, yw sicrhau cyn belled â phosibl bod ymgeiswyr yn cwblhau ar amser.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Cefnogi a chymell ymgeiswyr i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau.
- Defnyddio sesiynau goruchwylio i fonitro cynnydd.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau dilyniant ffurfiol.

Cefnogi Datblygiad Personol, Proffesiynol a Gyrfa Ymgeiswyr

Pobl wrth gwrs, yw ymgeiswyr doethurol, ac mae'n naturiol y byddant yn mynd trwy gyfnodau da a gwael yn eu bywydau personol. Mae angen i oruchwylwyr fod yn ymwybodol o faterion o'r fath a helpu ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau proffesiynol perthnasol. Mae angen iddynt hefyd gydnabod y gallant fod yn fodel rôl i'w hymgeiswyr, gan gynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae gan oruchwylwyr gyfrifoldeb hefyd i gefnogi datblygiad proffesiynol ymgeiswyr doethurol o ran cymdeithasu o fewn cymuned eu disgyblaeth a, lle bo hynny'n briodol, wrth ymgymryd â dyletswyddau addysgu yn y pwnc.

Yn draddodiadol, roedd gweithgareddau o'r fath yn helpu i gefnogi ymgeiswyr doethurol i baratoi ar gyfer gyrfaoedd academaidd, ac mae goruchwylwyr wedi chwarae rôl uniongyrchol yn y dasg o roi gwybodaeth iddynt am fywyd a gwaith cyfadrannau. Yn y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, dim ond nifer fach o raddedigion doethurol sydd wedi dod yn academyddion, tra bod y mwyafrif wedi cael gwaith mewn meysydd eraill. Yma, efallai y bydd gan oruchwylwyr rôl anuniongyrchol wrth helpu ymgeiswyr i baratoi ar gyfer gyrfaoedd nad ydynt yn academaidd.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Gweithredu mewn capasiti bugeiliol gydag ymgeiswyr doethurol.
- Bod yn fodelau rôl da o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Cyflwyno ymgeiswyr i rwydweithiau a gweithgareddau disgyblaethol.
- Cefnogi eu datblygiad fel athrawon.
- Rhoi gwybodaeth iddynt am yrfaoedd academaidd.
- Cefnogi datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Cefnogi Ymgeiswyr i Gwblhau eu Hymchwil hyd at eu Harholiad Terfynol

Unwaith y bydd ymgeiswyr fwy neu lai wedi gorffen eu prosiectau ymchwil, rhaid iddynt gyflwyno darn o waith, sydd fel arfer yn draethawd hir, ond nid bob amser. Mae'n debygol mai hwn fydd y darn hiraf ac anoddaf o waith y mae ymgeisydd erioed wedi'i wneud, ac mae gan oruchwylwyr rôl allweddol wrth eu cynorthwyo i gwblhau eu traethodau.

Unwaith y bydd gan yr ymgeiswyr ddrafft cyflawn, y cwestiwn nesaf yw a ddylent ei gyflwyno ar gyfer y radd. Er nad oes unrhyw sicrwydd wrth gwrs, mae angen i oruchwylwyr allu cynghori ymgeiswyr ynghylch y tebygolrwydd y bydd y traethawd hir yn cyrraedd y safon ofynnol, felly mae angen dealltwriaeth glir arnynt o'r meini prawf ar gyfer y dyfarniad.

Er mwyn cefnogi'r broses arholi, mae'n bwysig bod gan oruchwylwyr wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae graddau ymchwil yn cael eu harholi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer penodi arholwyr, polisïau a phrosesau arholiadau, a deilliannau.

Yn y rhan fwyaf o systemau addysg uwch ond nid pob un ohonynt, bydd yr arholiad yn cynnwys asesiad o'r gwaith ysgrifenedig ynghyd ag arholiad llafar. Efallai y bydd ymgeiswyr yn anghyfarwydd ag arholiadau llafar ac un o rolau posibl goruchwylwyr yw eu helpu i baratoi ar gyfer eu harholiad llafar.

Mewn nifer o wledydd, mae goruchwylwyr yn cael eu hatal rhag arholi eu protégés eu hunain, ac er eu bod yn bosibl iddynt fod yn bresennol ni fyddant yn chwarae unrhyw ran yn yr arholiad ei hun. Pan fydd arholwyr yn cyfeirio gwaith, efallai y bydd gan oruchwylwyr rôl wedyn i gefnogi ymgeiswyr i ddiwygio eu gwaith.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Cefnogi a chymell ymgeiswyr i wneud cynnydd yn eu hastudiaethau.
- Defnyddio sesiynau goruchwylio i fonitro cynnydd.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau dilyniant ffurfiol.

Cefnogi Ymgeiswyr i Gwblhau eu Hymchwil hyd at eu Harholiad Terfynol

Unwaith y bydd ymgeiswyr fwy neu lai wedi gorffen eu prosiectau ymchwil, rhaid iddynt gyflwyno darn o waith, sydd fel arfer yn draethawd hir, ond nid bob amser. Mae'n debygol mai hwn fydd y darn hiraf ac anoddaf o waith y mae ymgeisydd erioed wedi'i wneud, ac mae gan oruchwylwyr rôl allweddol wrth eu cynorthwyo i gwblhau eu traethodau.

Yn y rhan fwyaf o systemau addysg uwch ond nid pob un ohonynt, bydd yr arholiad yn cynnwys asesiad o'r gwaith ysgrifenedig ynghyd ag arholiad llafar. Efallai y bydd ymgeiswyr yn anghyfarwydd ag arholiadau llafar ac un o rolau posibl goruchwylwyr yw eu helpu i baratoi ar gyfer eu harholiad llafar.

Mewn nifer o wledydd, mae goruchwylwyr yn cael eu hatal rhag arholi eu protégés eu hunain, ac er eu bod yn bosibl iddynt fod yn bresennol, ni fyddant yn chwarae unrhyw ran yn yr arholiad ei hun. Pan fydd arholwyr yn cyfeirio gwaith, efallai y bydd gan oruchwylwyr rôl wedyn i gefnogi ymgeiswyr i ddiwygio eu gwaith.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Gweithio gydag ymgeiswyr i gwblhau eu gwaith.
- Cynghori ynghylch a yw'r traethawd hir yn debygol o basio ar sail eich profiad fel arholwr.
- Rolau wrth benodi arholwyr.
- Dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau a chanlyniadau perthnasol.
- Cefnogi ymgeiswyr i baratoi ar gyfer yr arholiad llafar.
- Cefnogi ymgeiswyr ar ôl yr arholiad llafar.

Cefnogi Ymgeiswyr i Rannu eu Hymchwil

Gan fod cwblhau doethuriaeth yn cynnwys gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth a dealltwriaeth, mae'n hanfodol bod y canlyniadau'n cael eu darparu i gymuned y ddisgyblaeth a/neu gymuned broffesiynol ar gyfer craffu a hyrwyddo ymchwil yn y pwnc. Un o gyfrifoldebau goruchwylwyr yw cefnogi ymgeiswyr i rannu eu canfyddiadau ymchwil.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Gosod disgwyliadau ar ddechrau'r cyfnod ymgeisio.
- Modelu'r broses gyhoeddi.
- Annog ymgeiswyr i gyhoeddi wrth iddynt fwrw ymlaen â'r gwaith.
- Cyd-gyhoeddi.
- Sefydlu cynllun ar gyfer cyhoeddiadau ôl-ddoethurol.

Myfyrio ar Ymarfer, a'i Wella

Er mwyn i oruchwylwyr wella eu hymarfer, mae angen iddynt ei werthuso, myfyrio arno, pennu eu cryfderau a'u gwendidau, adeiladu ar y cyntaf a rhoi sylw i'r olaf.

Fel gyda meysydd eraill o ymarfer academaidd, dylai goruchwylwyr ymgymryd â datblygiad proffesiynol priodol i wella eu hymarfer. Gallai hynny gynnwys gweithdai a rhaglenni yn ogystal â bod yn gyfarwydd â'r llenyddiaeth ysgolheigaidd a'i goblygiadau ar gyfer ymarfer.

Pan fo goruchwylwyr yn nodi ymarfer da, dylent ei ledaenu er budd eraill lle bynnag y bo'n bosibl.

Enghreifftiau Nodweddiadol

- Defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau ar gyfer gwerthuso goruchwyliaeth.
- Ymgymryd â datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus.
- Bod yn gyfarwydd â'r llenyddiaeth ysgolheigaidd.
- Lle bo'n briodol, cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol goruchwylwyr eraill.

Llyfryddiaeth

Brown, G. and Atkins, M. (1988)
Effective Teaching in Higher Education.
London, Methuen.

Eley, A. and Murray, R. (2009)
How to be an Effective Supervisor.
Maidenhead, Open University Press

Grant, K., Hackney, R. and Edgar, D. (2014)
Postgraduate Research Supervision: An Agreed Conceptual View of Good Practice through Derived Metaphors.
International Journal of doctoral Studies, 9: 43-60.

Kearns, H. and Finn, J. (2017)
Supervising PhD Students: A practical guide and toolkit.
Adelaide, Flinders Press.

Taylor, S (2018)
Eligibility to Supervise: A Study of UK Institutions
UK Council for Graduate Education

Taylor, S. Kiley, M. and Humphrey, R. (2018)
A Handbook for Doctoral Supervisors. 2nd Ed.
London, Routledge.

Wisker, G. (2012)
The Good Supervisor. 2nd Ed.
Basingstoke, Palgrave Macmillan.

RESEARCH SUPERVISION RECOGNITION PROGRAMME
UK Council for Graduate Education

Ewch i wefan **Research Supervision Recognition Programme**:

https://supervision.ukcge.ac.uk

Edrychwch ar y cyfeiriadau llawn at **lenyddiaeth academaidd ategol** y Fframwaith Ymarfer Goruchwylio Da, lawrlwythwch **becyn ymgeisio'r Research Supervision Recognition Programme**, y canllaw ar hunan-fyfyrio, a dysgwch ragor am **wneud cais am gydnabod** ymarfer goruchwylio.

Cyngor y DU dros
Addysg i Raddedigion

LLAIS Y **GYMUNED ADDYSG ÔLRADDEDIGION**

Mae Cyngor y DU dros Addysg i Raddedigion yn gymuned fywiog ac ymroddedig o sefydliadau addysg uwch sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn addysg ôl-raddedig.

Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad dielw, sy'n hyrwyddo ac yn gwella addysg ôl-raddedig drwy ddigwyddiadau dysgu a datblygiad proffesiynol o'r radd flaenaf, gan rannu datblygiadau arfer gorau a chyfleoedd dysgu rhwng cymheiriaid, comisiynu ymchwil arloesol, a gwneud argymhellion polisi i hyrwyddo sector ôl-raddedig cadarn a chynaliadwy.

I gael gwybod sut y gallwn eich helpu:

www.ukcge.ac.uk
+44 (0)1543 308602

UK Council for
Graduate Education

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

UK Council for Graduate Education
Lichfield Centre
The Friary
Lichfield
Staffordshire
WS13 6QG
UK

Rhif Cofrestredig yr Elusen. 1061495